Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

## M.J. Dental Services Ltd.

Dyddiad arolygu:10 Mawrth 2016

Dyddiad cyhoeddi: 26 Awst 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan** www.hiw.org.uk



ISBN Digidol 978-1-4734-6499-5


© Hawlfraint y Goron 2016

# Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 2

2. Cyd-destun ........ 3

3. Crynodeb ........ 4

4. Canfyddiadau ........ 5

    Ansawdd Profiad y Claf ........ 5

    Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol ........ 8

    Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 13

5. Y Camau Nesaf ........ 14

6. Methodoleg ........ 15

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw’r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Gwnaeth AGIC gynnal arolygiad o M J Dental Services Ltd, yn 4 Mervyn Terrace, Heol Osborne, Pont-y-pŵl, NP4 6NW, ar 10 Mawrth 2016.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd M J Dental Services Ltd yn bodloni’r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Cynhelir arolygiadau deintyddol ar ôl rhoi rhybudd, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu’r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau’n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn ffafrio darparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae byrddau iechyd yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae M J Dental Services Ltd yn darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion yn ardal Pont-y-pŵl yn Nhorfaen. Mae’r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae M J Dental Services Ltd yn bractis cymysg yn darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion preifat a chleifion y GIG.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys tri deintydd, tair nyrs ddeintyddol, dau dderbynnydd, a chydlynydd practis.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau'r GIG/preifat. Mae mwyafrif y cleifion sy'n mynychu'r practis hwn (96%) yn gleifion y GIG.

## 3. Crynodeb

**Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod M J Dental Services Ltd yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion, mewn amgylchedd glân a chyfforddus, ac mae'n uchel ei barch ymhlith y cleifion.**

Gwelsom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd yn darparu deunydd darllen yn y Gymraeg ac yn galluogi cleifion i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg
- Roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw'n hapus gyda'r gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu
- Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n hapus yn eu swyddi ac yn deall eu cyfrifoldebau
- Roedd y cyfleusterau clinigol wedi eu cyfarparu'n dda ac i'w gweld yn lân ac yn daclus
- Mae trefniadau ar waith i gynnal sganiau pelydr-X yn ddiogel.

Rydym yn argymell y gallai'r practis wella'r canlynol:

- Mae angen hyfforddiant ar ddeintyddion ynglŷn ag amddiffyn oedolion
- Mae angen hyfforddiant mewn gweithdrefnau radiolegol ar gyfer y nyrsys deintyddol sy'n cymryd rhan yn y broses hon
- Dylid nodi dyddiad prosesu offerynnau deintyddol ar y pecynnau
- Cofnodi nodiadau cleifion.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**Gwelsom dystiolaeth bod y practis yn ymroddedig i ddarparu profiad cadarnhaol ar gyfer ei gleifion. Roedd yr adborth a gasglwyd trwy holiadur AGIC a holiadur y practis ei hun, a thrwy siarad â'r cleifion, yn awgrymu bod cleifion yn hapus gyda'r gwasanaethau roeddent wedi eu derbyn gan yr holl staff. Roedd argaeledd taflenni wedi eu cyhoeddi yn Gymraeg a rhuglder un o'r deintyddion yn y Gymraeg yn cael eu gwerthfawrogi, yn enwedig gan y cleifion sy'n siarad Cymraeg. Nid oedd gennym bryderon ynglŷn â'r agwedd hon ar y gofal.**

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol a oedd yn cael eu darparu. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *"Hapus iawn gyda'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu."*
>
> "Practis cyfeillgar iawn, bob amser yn awyddus i ddiwallu anghenion pobl. Ardderchog!!"
>
> *"Staff ardderchog a gofalgar, awyrgylch hapus bob amser."*
>
> *"Cyfeillgar a chroesawgar bob amser ac yn dda gyda phlant hefyd."*

Dim ond chwe holiadur AGIC a oedd wedi eu cwblhau ar adeg ein harolygiad, ond roeddem yn gallu casglu rhagor o wybodaeth berthnasol gan holiaduron cleifion y practis ei hun, sy'n cael eu dosbarth bob chwarter blwyddyn. Gwelsom adroddiad chwarterol y practis ei hun hyd at y cyfnod ar ddiwedd mis Rhagfyr 2015, a lle mae hynny'n berthnasol rydym wedi cynnwys ymatebion y cleifion yn yr adroddiad arolygu hwn.

<u>Gofal gydag urddas</u>

Gwelsom fod cleifion yn cael eu trin mewn modd urddasol a pharchus. Gall cleifion sydd am drafod materion yn breifat gael eu gweld naill ai mewn ystafell driniaeth breifat neu mewn man aros cyfforddus i fyny'r grisiau. Gwnaethom nodi'r ffordd gyfeillgar ond proffesiynol roedd y staff yn siarad â chleifion. Ar adeg ein harolygiad, gwelsom nifer o blant yn mynychu, a chawsom y cyfle i siarad â nhw a'u rhieni. Dywedodd y plant wrthym eu bod yn hoffi eu deintydd

oherwydd nad oedd yn eu brifo nhw a’i fod yn "gwneud iddyn nhw chwerthin". Roedd rhieni hefyd yn hapus gyda'r gofal unigol roedden nhw a'u teuluoedd yn ei dderbyn, a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn teimlo bod staff yn cymryd amser i wrando ar eu hymholiadau ac ymateb iddynt. Dywedodd yr holl gleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth roeddent yn eu derbyn yn y practis, ac roeddent yn cael croeso cynnes gan y staff.

Gofal amserol

Dywedodd cleifion wrthym mai anaml iawn y byddent yn profi oediadau, a phe bai'r rhain yn digwydd byddai staff y practis bob amser yn rhoi esboniad derbyniol. Dywedodd cleifion wrthym fod y practis yn dda iawn o ran eu "gwasgu nhw mewn" pe bai angen cael eu gweld ar frys. Gwnaethom ofyn i staff ynglŷn â gweld cleifion sydd angen triniaeth frys, a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn gwneud eu gorau i weld cleifion ar yr un diwrnod, ond os nad oedd hynny'n bosibl fe fyddant yn eu gweld o fewn 24 awr. Gwelsom hysbysiad wedi ei arddangos y tu allan i ffenest y practis yn rhoi manylion ynglŷn ag oriau agor a sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol brys. Roedd y wybodaeth hon hefyd yn cael ei nodi yn nhaflenni'r practis ei hun.

Cadw’n iach

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd yr holiaduron eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth.

Gwelsom gyflenwad digonol o daflenni gwybodaeth iechyd i gleifion fynd â nhw adref, ac roedd hysbysfyrddau'n rhoi gwybodaeth ynglŷn ag iechyd y geg da a sut i'w gynnal. Gwelsom fod y practis yn ymdrechu i ddarparu gwybodaeth hyrwyddo iechyd mewn llawer o wahanol ffyrdd, er mwyn denu sylw plant ac oedolion, a gwnaethom eu canmol am eu hymdrechion yn hyn o beth. Mae gwybodaeth hyrwyddo iechyd yn cynorthwyo wrth gefnogi cleifion i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u lles eu hunain.

Gofal unigol

Roedd ymatebion i holiaduron cleifion a'r holl gleifion y gwnaethom siarad â nhw'n nodi eu bod yn teimlo eu bod wedi derbyn digon o gyngor am eu triniaeth bersonol, eu bod yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth yr oeddent wedi’i dderbyn, a bob amser yn teimlo bod croeso cynnes iddynt. Dywedodd cleifion wrthym fod y staff bob amser yn gwrando arnynt ac yn rhoi cyngor iddynt am unrhyw bryderon a chwestiynau a allai fod ganddynt. Dywedodd cleifion wrthym hefyd eu bod wedi mwynhau'r awyrgylch cyfeillgar yn y practis.

Gwelsom fod y mynedfeydd yn hawdd i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn gael mynediad atynt, ond nid oedd tai bach a oedd yn hygyrch ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn. Gwnaethom nodi bod y practis wedi'i leoli yn adeilad teras, a dywedodd staff wrthym ei fod yn anodd ei foderneiddio. Dywedodd staff wrthym pan oeddent yn gwybod bod claf yn mynychu mewn cadair olwyn, gwneid trefniadau i weld y claf ar unwaith i osgoi oediadau, ac i wneud ei ymweliad mor gyfforddus ac urddasol ag y bo modd.

Gwelsom fod y gweithdrefnau cwyno ar gyfer cleifion preifat a chleifion y GIG wedi eu harddangos yn glir yn yr ystafelloedd aros i fyny'r grisiau ac i lawr y grisiau, a bod y rhain yn cydymffurfio â rheoliadau deintyddiaeth breifat a phroses gwyno'r GIG ‘Gweithio i Wella’.  Roedd gwybodaeth debyg hefyd ar gael yn nhaflenni gwybodaeth y practis.

## *Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol*

**Mae cleifion yn y practis hwn yn derbyn gofal diogel ac effeithiol gan dîm sy'n canolbwyntio ar y claf ac yn meddu ar gyd-werthoedd ynglŷn â darparu gwasanaeth deintyddol da. Gwelsom rai mannau a oedd angen gwelliannau mewn perthynas â storio offerynnau deintyddol a'r angen i ddeintyddion dderbyn hyfforddiant ar amddiffyn oedolion. Gwnaethom hefyd argymell bod tîm y practis yn gweithio'n agosach gyda'i gilydd er mwyn sicrhau bod cysondeb a chydymffurfiaeth well ar gyfer cofnodion clinigol.**

Gofal diogel

Mae'r practis deintyddol wedi'i leoli mewn rhes o dai teras gydag addasiadau wedi eu gwneud er mwyn darparu cyfleusterau diogel a chyfforddus. Gwelsom bolisïau iechyd a diogelwch yn llywodraethu gweithdrefnau codi a chario, asesiadau risg yn y gweithle, contract diogelwch nwy, diffoddwyr tân wedi eu lleoli'n strategol i fyny'r grisiau ac i lawr y grisiau, a chontract cynnal cyfarpar tân. Gwnaethom weld arwyddion ar gyfer yr allanfeydd tân, ond nodi bod un o'r rhain yn fach ac fe allai fod yn anodd ei weld. Gwnaeth y practis ymateb i'r mater hwn trwy gyfnewid yr arwydd hwn ag un mwy ar unwaith. Roeddem yn fodlon ar yr addasiad hwn.

Gwelsom fod y gwastraff peryglus a'r gwastraff nad yw'n beryglus yn cael eu storio'n briodol ac roedd contractau gwaredu gwastraff priodol ar waith. Roedd dyfeisiau trydan cludadwy yn cael eu profi'n rheolaidd a'r broses hon yn cael ei dogfennu.

Gwnaethom argymell y gwneir mynediad at yr atig yn ddiogel ar gyfer staff, gan roi sylw penodol i'r llawr a glendid.

Rheoli heintiau

Roeddem yn fodlon ar y trefniadau a oedd ar waith yn y practis hwn i amddiffyn staff a chleifion rhag heintiau ataliadwy sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Gwelsom fod gan y practis weithdrefnau rheoli heintiau perthnasol ar waith, a bod archwiliad rheoli heintiau wedi cael ei gwblhau a'i anfon at Ddeoniaeth Cymru i gael ei ardystio.

Gwelsom fod gan y practis ystafell ddadheintio, ac er ei bod yn fach roedd wedi'i threfnu'n dda. Gwnaethom dynnu sylw at ddarn rhwng y llawr a'r wal nad oedd wedi cael ei selio'n llwyr ac a allai beri risg bosibl o heintiau. Cafodd y

mater hwn ei unioni yn ystod ein hymweliad trwy osod deunydd selio priodol, ac roeddem yn fodlon ar y camau unioni a gymerwyd.

Yn ystafell driniaeth 1 gwelsom fod rhan fach o'r llawr wedi'i charpedu. Gwnaethom hysbysu y gallai hyn beri risg bosibl o heintiau. Cytunodd staff i unioni'r mater hwn trwy gael gwared ar y darn hwn o garped.

**Yr hyn y mae angen ei wella**

**Dylid cael gwared ar y carped mewn mannau clinigol a rhoi deunydd lloriau yn ei le sy'n cydymffurfio â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.**

Gwelsom y defnydd priodol o gyfarpar diogelu personol megis menig tafladwy, menig gwaith trwm, ffedogau a chyfarpar diogelu llygaid yn ystod ein hymweliad.

Gwnaethom edrych ar y gwaith o brosesu a storio offerynnau deintyddol a nodi mai dim ond y dyddiad dod i ben a oedd wedi'i ysgrifennu ar y pecynnau. Mae'r canllawiau a amlinellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn nodi y dylai'r dyddiad y cafodd yr offerynnau eu prosesu a'u lapio gael ei gofnodi hefyd.

**Yr hyn y mae angen ei wella**

**Dylid nodi'r dyddiad y cafodd offerynnau deintyddol eu prosesu a'u lapio ar offerynnau deintyddol sydd wedi cael eu storio.**

Cyffuriau brys a chyfarpar dadebru

Gwelsom dystiolaeth bod yr holl staff clinigol wedi cael hyfforddiant cyfredol mewn dadebru cardio-pwlmonaidd a hefyd hyfforddiant mewn rheoli anaffylacsis. Roedd polisi dadebru manwl yn cael ei ddefnyddio gan y practis, a gwnaethom nodi ei bod yn ofynnol i aelodau perthnasol o staff lofnodi i ddweud eu bod wedi darllen y polisi. Gwelsom fod gan y practis gyfarpar dadebru digonol a oedd yn cynnwys mwgwd wyneb ar gyfer plant yn ogystal â mygydau ar gyfer oedolion. Roedd yr holl gyffuriau o fewn eu dyddiad dod i ben ac yn cael eu storio mewn man diogel. Ar y cyfan, gwelsom fod y practis hwn yn cydymffurfio'n llwyr â'r gofynion a amlinellir gan AGIC ynglŷn â rheoli meddyginiaethau a chanllawiau dadebru.  Gwnaethom nodi bod angen diweddaru tystysgrif swyddog cymorth cyntaf yn y practis, a gwelsom fod lle wedi'i drefnu ar gwrs priodol ar gyfer mis Ebrill 2016.

Diogelu

Gwelsom mai dim ond dau o'r tri deintydd a oedd yn gweithio yn y practis a oedd yn meddu ar dystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Dywedwyd wrthym fod un o'r deintyddion wedi gwneud cais am y dystysgrif hon ac yn aros iddi gyrraedd. Ni wnaethom weld unrhyw dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer un o'r deintyddion (a enwir yn nhaflen y practis y "deintydd arwain"), a oedd yn dod yn ôl i'r practis ar ôl bod yn absennol am flwyddyn. Mae tystysgrif ddilys (gwiriad ar lefel uwch wedi'i gynnal o fewn y tair blynedd diwethaf) yn ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat, ac o ganlyniad mae AGIC yn gofyn i dystiolaeth o'r dystysgrif hon gael ei hanfon at AGIC yn ddi-oed.

Roedd yr holl staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant amddiffyn plant, ac roedd yr holl nyrsys deintyddol wedi cwblhau hyfforddiant amddiffyn oedolion. Ni welsom dystiolaeth bod y tri deintydd wedi cwblhau hyfforddiant amddiffyn oedolion. Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi mynegi eu bod yn awyddus i sicrhau bod staff yn cael eu gwneud yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu, ac wedi'i wneud yn destun a argymhellir ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.

**Yr hyn y mae angen ei wella**

**Dylai pob aelod o staff fynychu hyfforddiant ar amddiffyn oedolion.**

Roedd yr holl nyrsys deintyddol wedi gweithio yn y practis ers dros 15 mlynedd, ac o ganlyniad nid oedd gwiriadau o gyflogaeth flaenorol wedi cael eu cynnal. Roedd cydlynydd y practis yn ymwybodol o'r angen am wiriadau cyn cyflogaeth yn unol â pholisïau diogelu, safonau a rheoliadau perthnasol pe bai staff newydd yn cael eu cyflogi.

*Offer radiograffig*

Gwelsom ddogfennaeth a oedd yn cadarnhau bod gan yr holl ddeintyddion hyfforddiant cyfredol mewn ymbelydredd ïoneiddio, ac roedd Goruchwyliwr Gwarchod rhag Ymbelydredd a enwir yn y practis. Roedd contract ar waith ar gyfer gwasanaethau Cynghorydd Gwarchod rhag Ymbelydredd, a gwelsom fod archwiliadau sicrhau ansawdd ar gyfer ansawdd delweddau wedi cael eu cynnal yn unol â chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Ni welsom dystiolaeth bod hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio wedi cael ei gwblhau gan yr holl nyrsys deintyddol, a dylai pob nyrs ddeintyddol sy'n ymgymryd â gweithdrefnau radiolegol gwblhau'r hyfforddiant hwn.

**Yr hyn y mae angen ei wella**

**Dylai'r hyfforddiant perthnasol mewn ymbelydredd ïoneiddio gael ei gwblhau gan yr holl nyrsys deintyddol sy'n ymgymryd ag archwiliadau radiolegol.**

Gofal effeithiol

Gwelsom fod rhai o daflenni gwybodaeth y practis hefyd ar gael yn Gymraeg a bod un o'r deintyddion hefyd yn rhugl yn Gymraeg. Dywedwyd wrthym fod cleifion a oedd yn siarad Cymraeg yn gwerthfawrogi'r cyfle i gyfathrebu yn eu hiaith eu hunain.

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Gwelsom fod y practis yn ymgymryd â rhai archwiliadau perthnasol megis rheoli heintiau, a bod polisi sicrhau ansawdd/llywodraethu clinigol ar waith, gyda'r safonau'n cael eu harfarnu a'u goruchwylio gan y bwrdd iechyd lleol.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl o gofnodion cleifion ar gyfer pob un o'r tri deintydd a oedd yn gweithio yn y practis. Ar y cyfan, roedd cofnodion ysgrifenedig o safon foddhaol ac roedd nodiadau ysgrifenedig yn ddarllenadwy. Fodd bynnag, fe wnaethom weld rhai anghysondebau ynglŷn â chadw cofnodion a chynnal sganiau pelydr-X, ac mae angen gwelliannau i'r meysydd canlynol:

- Dylid cofnodi'r rheswm dros yr apwyntiad bob amser.
- Dylai hanesion meddygol gael eu diweddaru ar gyfer pob cwrs o driniaeth, a chael eu llofnodi gan staff clinigol i ddilysu canfyddiadau.
- Nid oedd hanes deintyddol blaenorol yn cael ei gofnodi a gall fod yn ddefnyddiol gwneud hynny.
- Dylai archwiliadau periodontol sylfaenol ar gyfer plant ac oedolion gael eu cofnodi'n rheolaidd yn unol â'r canllawiau.
- Dylid cynnal sganiau radiograffig adenfrath (bitewing) lle y'u nodir (gwelsom nad oedd hyn yn digwydd bob amser). Pan fydd sganiau pelydr-X yn cael eu cynnal, rhaid cofnodi'r radd, y canfyddiadau a'r cyfiawnhad.
- Dylai sganio am ganser gael ei gofnodi a'i esbonio.

**Yr hyn y mae angen ei wella**

**O ystyried yr anghysondebau uchod yn y cofnodion clinigol, rydym yn argymell bod y deintyddion yn y practis hwn yn cynnal archwiliad o'r cofnodion clinigol a rhannu'r hyn a ddysgir o'r broses hon.**

## *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Gwelsom dystiolaeth o reolaeth ac arweinyddiaeth effeithiol yn y practis hwn. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n hapus yn eu swyddi ac yn deall eu cyfrifoldebau, ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan gydlynydd y practis. Roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith.**

Lleolir y practis mewn rhes o dai teras, ac roedd trefn a strwythur yr adeilad yn cyfyngu'r cyfleusterau. Roedd ymdrechion wedi eu gwneud lle bynnag y bo modd i ddarparu amgylchedd cyfforddus, diogel a dymunol ar gyfer cleifion a staff.

Gwnaethom nodi bod yr holl staff wedi eu cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, a bod eu brechiadau Hepatitis B wedi cael eu diweddaru. Roedd yswiriant indemniad priodol ar waith ar gyfer staff. Yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat, roedd pob deintydd a oedd yn darparu triniaeth breifat wedi'i gofrestru gydag AGIC, ac roedd eu tystysgrifau cofrestru ar gael o fewn y practis. Gwnaethom edrych ar y polisïau a'r gweithdrefnau a oedd ar gael ac roeddem yn fodlon bod y rhain, ar y cyfan, yn gyson â'r gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu. Gwnaeth staff sôn am bwysigrwydd bod yn ymwybodol o ddatblygiadau a gweithdrefnau newydd, er mwyn sicrhau'r arferion gorau i gleifion ac i sicrhau eu bod yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf. Gwelwyd tystiolaeth o arfarniadau staff blynyddol a gwelsom hefyd cofnod o'r cyfarfodydd staff.

Gwelsom systemau ar waith i sicrhau bod unrhyw staff newydd yn derbyn hyfforddiant ymsefydlu a'u bod yn cael eu hysbysu am bolisïau a gweithdrefnau'r practis. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau ac yn hyderus ynddynt, a gwelsom fod perthynas weithio ardderchog ymhlith y staff – a'r rhan fwyaf ohonynt wedi gweithio gyda'i gilydd ers blynyddoedd lawer.

Roedd gan y practis daflen llawn gwybodaeth a oedd yn rhoi gwybodaeth i gleifion nid yn unig am gymwysterau a phrofiad pob aelod o staff, ond hefyd rhywfaint o wybodaeth bersonol megis hobïau a diddordebau staff.

Ar y cyfan, roeddem yn fodlon bod gan y practis hwn arweinyddiaeth a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir, bod y practis yn cael ei reoli'n effeithiol, a'i fod yn ymroddedig i ddatblygiad staff a chynnal safonau o ofal cleifion.

## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd M J Dental Services Ltd yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn y practis, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynglŷn â'r materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r gwasanaeth yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.


Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

## 6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

**Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal**

Ffigur 1




Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[1] a Rheoliadau Deintyddiaeth

---

[1] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made

Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[2] Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Trafodaethau â staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd lleol at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

---

[2] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: M J Dental Services Ltd.

## Dyddiad yr arolygiad: 10 Mawrth 2016

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu’r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| | Dim angen gwneud unrhyw welliannau. | | | | |
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | |
| 8 | Rhaid nodi’r dyddiad y cafodd offerynnau deintyddol eu prosesu a’u lapio ar offerynnau deintyddol sydd wedi cael eu storio. | Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (2.k)<br>24.k | Mae'r gwelliant a argymhellwyd bellach wedi cael ei weithredu gan staff y practis. Roedd teclynnau stampio awtomatig eisoes yn cael eu defnyddio ar gyfer dyddiadau dod i ben, ond mae teclynnau stampio newydd wedi cael eu prynu ar gyfer y dyddiad prosesu hefyd. | M Jobbins | Cwblhawyd |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu’r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | **Dylid cael gwared ar y carped mewn mannau clinigol a rhoi deunydd lloriau yn ei le sy'n cydymffurfio â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.** | Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 6.46, 6.47, 6.48, 6.49 | Rydym wedi archebu deunydd lloriau newydd er mwyn newid holl loriau’r ystafelloedd triniaeth (gan gynnwys y rhan sydd wedi'i charpedu) ac rydym yn aros am ddyddiad iddo gael ei osod. | M Jobbins | 3-4 wythnos |
| 9 | Dylai pob aelod o staff fynychu hyfforddiant ar amddiffyn oedolion. | Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 4.3.3; 8.5 | Mae gennym ffynhonnell ar-lein ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus (Educare) sy'n cynnwys pecyn diogelu oedolion. Mae'r deintydd arweiniol wedi cwblhau hwn ac mae'r ddau ddeintydd cysylltiol ar fin cwblhau'r modiwl hwn hefyd. | M Jobbins | 1-2 wythnos |
| 10 | Dylai'r hyfforddiant perthnasol mewn ymbelydredd ïoneiddio gael ei | Datblygiad proffesiynol parhaus ar | Mae'r holl nyrsys deintyddol yn M J Dental Services Ltd yn cwblhau datblygiad proffesiynol parhaus | M Jobbins | Cwblhawyd |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | gwblhau gan yr holl nyrsys deintyddol os ydynt yn ymgymryd ag archwiliadau radiolegol. | gyfer gweithwyr proffesiynol deintyddol gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol | blynyddol y gellir ei ddilysu (gan gynnwys yr holl destunau craidd), trwy Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus Deintyddiaeth, sy'n cynnwys un awr o hyfforddiant radiolegol bob blwyddyn dros y cylchred o bum mlynedd. Mae hyn yn rhoi tystysgrifau blynyddol sy'n cydymffurfio â chynllun dysgu gydol oes y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Roedd y rhain ar gael i'w harchwilio ar ddiwrnod yr arolygiad. | | |
| 11 | O ystyried yr anghysondebau a welwyd yn y cofnodion clinigol, rydym yn argymell bod y deintyddion yn y practis hwn yn cynnal archwiliad o'r cofnodion clinigol a rhannu'r hyn a ddysgir o'r broses hon. | Safonau Iechyd a Gofal 3.5; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 4 | Ers yr arolygiad, rydym wedi prynu Software of Excellence (EXACT), meddalwedd sydd ar gael ar draws yr holl bractis. Trwy ddefnyddio'r system hon, rydym bellach wedi safoni'r broses o gadw cofnodion o fewn y practis. Mae archwiliad mewnol chwe mis o gardiau cofnodion wedi'i drefnu i'w gwblhau ym mis Medi. | M Jobbins | I'w gwblhau erbyn 30 Medi 2016 |
| **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu’r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | Dim angen gwneud unrhyw welliannau. | | | | |

**Cynrychiolydd y practis:**

**Enw (llythrennau bras):** **MARC WILLIAM JOBBINS**

**Teitl:** **PRIF DDEINTYDD**

**Dyddiad:** **15 AWST 2016**